CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD CYNGOR SIR YNYS MÔN A CHYNGOR GWYNEDD

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 5 (ECONOMI)

YMATEBYDD: HORIZON NUCLEAR POWER WYLFA LIMITED (CYF: 2919)

Awst 2016

Ein cyf: Q60570

Cynnwys

1 CYFLWYNIAD 2
2 DADANSODDIAD CYNLLUNIO 5
3 NEWIDIADAU A GEISIR 12
ATODIAD 1 - SYLWADAU AR NODYN DYRANIAD TIR CYFLOGAETH (GORFFENNAF 2016) 13
ATODIAD 2 - NEWIDIADAU A GEISIR I'R POLISI 15

Dogfennau

Dylid darllen y datganiad hwn ar y cyd â chyflwyniadau ar wahân yr ymatebydd, fel y rhestrir isod :

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 1: PARATOI'R CYNLLUN, GWELEDIGAETH A STRATEGAETH

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 2: DARPARIAETH TAI

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 6: AMGYLCHEDD HANESYDDOL A NATURIOL

DATGANIAD GWRANDAWIAD SESIWN 9: WYLFA

Atodiadau

Atodiad 1 – Sylwadau ar nodyn dyraniad tir cyflogaeth (Gorffennaf 2016)

Atodiad 2 – Newidiadau a geisir i'r polisi

1 CYFLWYNIAD

a) Yr Ymatebydd

1.1 Mae'r ymatebydd, Horizon Nuclear Power Wylfa Limited ("Horizon"), yn rhoi cynigion ymlaen ar gyfer adeiladu a gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa a datblygiadau cysylltiedig ("Prosiect Wylfa Newydd" neu'r "Prosiect"). Mae'r Datganiad Gwrandawiad hwn (y "Datganiad") yn delio'n benodol â Sesiwn 5 – Economi.

1.2 Parhaodd Horizon i gynnal deialog cynhyrchiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn a ("CSYM") a Chyngor Gwynedd (gyda'i gilydd, "y Cynghorau") ar ôl cyflwyno ei sylwadau i wahanol gamau ymgynghori y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ("y Cynllun"). Mae Horizon wedi gweithio gyda'r Cynghorau i ddod i gytundeb ar faterion lle bo hynny'n bosibl a bydd hyn yn cael ei nodi yn y Datganiad o Dir Cyffredin ("SoCG") sydd i gael ei ffeilio ar 23 Awst.

1.3 Mae'r Datganiad hwn felly'n ymdrin â'r materion sy'n weddill lle naill ai na chyrhaeddwyd cytundeb, neu lle mae trafodaethau yn mynd yn eu blaenau.

1.4 Fel yr esbonnir yn y Datganiad hwn, ystyria Horizon bod angen diwygiadau penodol i bolisïau CYF1, CYF4, PS12, MAN6, TWR1 a TAI3 yn ogystal â thestun cefnogol paragraffau 7.3.25 a 7.3.55.

a) Wylfa Newydd

1.5 Mae'r angen brys am orsafoedd ynni niwclear newydd a phwysigrwydd Wylfa Newydd wrth wireddu'r gofynion hynny i'w cael yn Natganiad Gwrandawiad 1 .

1.6 Yn y cyd-destun hwnnw, mae'n hanfodol bod polisïau cynllunio yn darparu fframwaith polisi cynllunio clir nad yw'n llesteirio nac yn rhagfarnu'n erbyn penderfynu ar unrhyw geisiadau ar gyfer datblygiadau cysylltiedig. Byddai methiant i wneud hynny yn gallu rhagfarnu'n erbyn yr angen brys am orsafoedd ynni niwclear newydd.

a) Strwythur y Datganiad Gwrandawiad

1.7 Dengys y Datganiad hwn yng nghyd-destun (b) uchod bod Horizon yn dadlau nad yw'r Cynllun yn gadarn mewn perthynas â'r tri mater a welir ym mharagraff 1.13 isod, wrth asesu yn erbyn y prawf

cadernid a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, 2016) ("PCC") a'r deg maen prawf cadernid a nodir yn y Cynllun[1].

1.8 Cyfyngir y datganiad hwn i faterion a godwyd gan yr Arolygydd, yn yr Agenda Materion i Sesiwn 5, sef:

- 3. (a) A yw lefel y ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn cael ei chyfiawnhau'n llawn a'i gefnogi gan dystiolaeth gadarn?
- 6. Sut mae'r strategaeth tir cyflogaeth yn ymwneud â rhaglen Ynys Ynni Môn? Beth fyddai'n sbarduno rhyddhau'r tir a ddynodwyd fel 'safleoedd wrth gefn' ar gyfer rhaglen Ynys Ynni Môn a pha fecanweithiau fyddai ar waith i wrthsefyll datblygu'r safleoedd hyn yn gynnar yng nghyfnod y Cynllun?
- 9. (b) A yw Polisi Strategol PS12 yn darparu hierarchaeth briodol o ganolfannau manwerthu? A fydd y Cynllun yn amddiffyn rolau priodol y canolfannau o fewn hierarchaeth o'r fath?
- 13. A yw Polisi MAN6: Manwerthu yng Nghefn Gwlad yn briodol ac a yw'n gyson â Pholisi cenedlaethol, gan gynnwys y polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a strategaeth ddatblygu'r Cynllun?
- 16. A yw'r Cynllun, trwy Bolisi Strategol PS11 a Pholisïau TWR1 a TWR2 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer ystyried cynigion am gyfleusterau a llety twristiaeth a hamdden newydd neu well?

1.9 Mae Horizon hefyd yn dibynnu ar ei gyflwyniadau mewn perthynas â Sesiynau 1 (Paratoi'r cynllun, gweledigaeth a strategaeth), 2 (Darpariaeth tai), 6 (Economi – Cyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth), a 9 (Wylfa).

1.10 Mae Adran 2 o'r datganiad hwn yn rhoi dadansoddiad o'r Cynllun ac asesiad o'i gadernid yn erbyn y meini prawf a nodir yn PCC a'r Cynllun ei hun, mewn perthynas â'r materion dan sylw a godwyd gan yr Arolygydd.

[1] Paragraff 1.17, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

1.11 Mae Adran 3 yn amlinellu'r newidiadau arfaethedig y mae Horizon yn eu hystyried yn hanfodol i sicrhau cadernid y Cynllun.

2 DADANSODDIAD CYNLLUNIO

2.1 Nid yw'r Cynllun yn darparu fframwaith polisi digon clir i gefnogi a darparu'r rheolaeth angenrheidiol ar gyfer elfennau sylweddol o'r Prosiect. Mae cryn ansicrwydd ynghylch pa bolisïau sy'n berthnasol - Llety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro ("TCWA") - a sut y byddant yn cael eu defnyddio, felly ystyrir bod y Cynllun yn aneglur ac felly'n methu prawf cadernid 2 ym Mholisi Cynllunio Cymru[2].

2.2 Ystyria Horizon y dylai polisïau cynllunio ganiatáu ar gyfer y posibilrwydd o gyflenwi TCWA Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd)[3] sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd ar dir cyflogaeth wrth gefn lle gellir dangos na fyddai hyn yn amharu ar faint o dir cyflogaeth sydd ar gael ar gyfer cyfnod y Cynllun. Mae paragraff 7.3.23 o'r Cynllun Cyfansawdd yn esbonio bod angen rhai safleoedd wrth gefn hefyd i sicrhau cyflenwad angenrheidiol o dir yn ymwneud ag NSIPs ar Ynys Môn. Gan mai swyddogaeth benodol y safleoedd hyn yw cwrdd â'r galw gan NSIPs, mae'n rhesymol y dylai'r polisi hefyd ymestyn i ddefnyddiau eraill sy'n ofynnol mewn cysylltiad â chyflenwi prosiectau pwysig o'r fath. Ystyria Horizon y dylai hyn gael ei gefnogi mewn egwyddor, gan y byddai cadw'r hyblygrwydd hwn yn hwyluso cyflenwi'r Rhaglen Ynys Ynni ("RhYY") (gweler paragraff 2.5).

2.3 Yn achos penodol y Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) arfaethedig yn Rhosgoch, ystyrir bod hyn yn arbennig o briodol os gall Horizon dangos nad oes angen defnyddiau amgen. Noda Horizon bod yr Adolygiad Tir Cyflogaeth ("ATC") (2012) (a baratowyd ar ran y Cynghorau) yn argymell y dylai pob awdurdod ddarparu isafswm o 6ha o dir cyflogaeth bob blwyddyn. Mae cyfanswm cyflenwad/capasiti o 224.4ha o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu ar Ynys Môn (ac eithrio safleoedd wrth gefn). Golyga hyn bod gorgyflenwad o 140.4ha o dir cyflogaeth (h.y. gwerth 23.4 o flynyddoedd ychwanegol) ar Ynys Môn dros gyfnod y cynllun (14 mlynedd o'r ATC), cyn i Safleoedd Wrth Gefn Rhaglen Ynys Ynni hyd yn oed gael eu hystyried. Nid yw cyfyngiad absoliwt ar y defnydd o'r tir hwn ar gyfer Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd), lle mae'r defnydd hwnnw'n unol ag amcanion RhYY, yn gymesur nac yn cael ei gyfiawnhau.

[2] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

[3] Cyfeirier at ddatganiad gwrandawiad 2 am ragor o wybodaeth ar hyn.

2.4 Mae Horizon hefyd yn dadlau na ddylai polisïau PS11, TWR1, TWR2 a MAN6 fod yn berthnasol i rywfaint o'i lety gweithwyr dros dro gan nad ydynt, fel y'u geiriwyd ar hyn o bryd, yn addas i ymdrin yn effeithiol â gofynion penodol iawn ac unigryw Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig.

a) <u>A yw'r ffigwr cyffredinol o 638.7ha o dir cyflogaeth a ddiogelir, gyda 60ha ychwanegol o dir a ddyrannwyd a 144.1ha o Safleoedd Wrth Gefn (cyfanswm 842.8ha) yn briodol i gwrdd ag anghenion y Siroedd dros gyfnod y Cynllun?</u>

(Cwestiwn 3 (a) A yw lefel y ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn cael ei chyfiawnhau'n llawn a'i gefnogi gan dystiolaeth gadarn?)

<u>Sut mae'r strategaeth tir cyflogaeth yn ymwneud â rhaglen Ynys Ynni Môn? Beth fyddai'n sbarduno rhyddhau'r tir a ddynodwyd fel 'safleoedd wrth gefn' ar gyfer rhaglen Ynys Ynni Môn a pha fecanweithiau fyddai ar waith i wrthsefyll datblygu'r safleoedd hyn yn gynnar yng nghyfnod y Cynllun?</u>

(Cwestiwn 6, Sesiwn Gwrandawiad 5 Economi: Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth - Agenda Materion)

2.5 Bwriad RhYY yw bod yn lleoliad blaenllaw ar gyfer ymchwil a datblygu ynni, gan gynnwys y potensial ar gyfer ynni llanw, dadgomisiynu niwclear a gridiau smart. Mae'r ATC, a gyhoeddwyd fel Papur Cefndir ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau, yn tynnu sylw at y ffaith y bydd lefelau sylweddol o fuddsoddiad dros y pymtheng mlynedd nesaf a'i bod yn hanfodol bod hyn yn cael ei ddefnyddio i dyfu, denu a chadw busnesau a swyddi. Ceir manylion pellach mewn ymateb i gais yr Arolygydd am fwy o wybodaeth ac esboniad o'r orddarpariaeth o dir cyflogaeth a amlinellir yn yr ATC a ddarperir yn *Nodyn Dyraniad Tir Cyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gorffennaf 2016)* y Cynghorau, sy'n ailadrodd pwysigrwydd y RhYY, ac yn enwedig Wylfa Newydd, fel *"catalydd ar gyfer buddsoddi i mewn i'r ardal a fydd angen darpariaeth ddigonol o dir cyflogaeth."* (t.1).

2.6 Mae'r ATC yn datgan bod ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid y diwydiant niwclear wedi dod i'r casgliad y bydd angen safleoedd cyflogaeth ychwanegol ar gyfer cwmnïau lleol sy'n manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddi ynni newydd, dadgomisiynu Wylfa A a gweithrediad

Wylfa Newydd[4]. Fodd bynnag, mae paragraff 6.10.6 yn mynd ymlaen i gadarnhau nad yw'n bosibl ar hyn o bryd rhagweld faint o dir cyflogaeth a fydd yn ofynnol i fodloni'r galw sy'n deillio o Brosiect Wylfa Newydd a phrosiectau posibl eraill RhYY.

2.7 Mae diffyg tystiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i ganiatáu i'r Cynghorau fod yn bendant ynghylch pa safleoedd sy'n briodol ar gyfer dyrannu fel tir cyflogaeth. Yn unol â hynny, cynigir dull haenau yn y Cynllun, gan gynnwys darparu 'safleoedd cyflogaeth wrth gefn'.

2.8 Mae'r Cynllun yn disgrifio 'safleoedd wrth gefn cyflogaeth' fel, "Safleoedd sydd â'r potensial i ateb y galw o ganlyniad i Wylfa Newydd yn ogystal â gweddill Rhaglen Ynys Ynni Môn/ Ynys Menter".[5]

2.9 Disgrifia paragraff 6.10.8 yr ATC 'safleoedd wrth gefn' fel:

"Yn y bôn, mae'r safleoedd hynny y tybir nad oes digon o dystiolaeth na chyfiawnhad i'w cynnwys yn y portffolio newydd o dir cyflogaeth ond sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai a allai fod yn bwysig i gwrdd ag amcanion RhYY [Rhaglen Ynys Ynni], gan gynnwys y cynigion adeiladu gorsaf niwclear newydd, i gael eu hystyried fel cyflenwad o dir cyflogaeth wrth gefn (ac ni chânt eu cyfrif yn y prif gyflenwad). Os, maes o law, y ceir digon o dystiolaeth neu gyfiawnhad, yna gall y safleoedd wrth gefn hyn gael eu hyrwyddo i eistedd o fewn y prif bortffolio."

2.10 Noda Polisi CYF1 cyn y gellir rhoi ystyriaeth i ryddhau safleoedd wrth gefn ar gyfer defnydd cyflogaeth, "y byddai'n rhaid dangos angen, yn ogystal â thystiolaeth bod y datblygiad arfaethedig ar y safle yn ymwneud yn uniongyrchol â gwireddu amcanion Rhaglen Ynys Ynni Môn, ac nad oedd unrhyw safle cyflogaeth gwarchodedig addas i fodloni'r angen".

2.11 Fodd bynnag, ystyria Horizon ei bod yn fwy priodol y dylai astudiaeth ddichonoldeb sy'n dangos cyflenwadwyedd a hyfywedd y safle fod yn sbardun ar gyfer dyrchafiad i ddyraniad cyflogaeth ffurfiol, yn unol â pharagraff 9.5.6 yr ATC.

[4] Paragraff 6.10.5, Adolygiad Tir Cyflogaeth: Astudiaeth i Ynys Môn a Gwynedd (2012)
[5] Paragraff 7.3.25, Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

2.12 Yn benodol, mae'r Cynllun yn nodi hen safle Shell yn Rhosgoch fel safle wrth gefn (Map Cynllun Cyfansawdd cyf: C(wg)37)). Rhosgoch yw'r safle a ffefrir ar gyfer datblygu llety Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd), i gefnogi Prosiect Wylfa Newydd. Nodwyd y safle fel un sydd â lle i letya tua 1,500 o weithwyr mewn unedau modiwlaidd person sengl.

2.13 Yn seiliedig ar ffigyrau manteisio ar dir cyflogaeth rhwng 1996 a 2009, yn hanesyddol manteisir ar 3.87ha y flwyddyn ar gyfartaledd o dir cyflogaeth ar Ynys Môn[6].

2.14 Awgryma rhagolygon econometrig y bydd rhwng 0.77 a 3.49 ha yn cael eu cymryd i fyny bob blwyddyn hyd at 2025[7]- fodd bynnag, mae'r ATC yn argymell y dylai pob awdurdod ddarparu lleiafswm o 4 ha o dir cyflogaeth bob blwyddyn yn unol â'r dull cynllunio gofodol a fabwysiadwyd dros gyfnod y Cynllun, sy'n gyfwerth â 56 ha ar gyfer cyfnod y Cynllun. Argymhellir hefyd y dylai'r ddau Gyngor anelu at adeiladu i mewn darged ychwanegol o 50% fel mesur byffer i ddarparu cynnig gwell, sy'n cyfateb i 6 ha bob blwyddyn (84 ha i gyd).

2.15 Noda Ffigwr 8.1 yr ATC bod cyfanswm cyflenwad o 224.4ha o dir cyflogaeth wedi'i ddyrannu ar Ynys Môn, ar draws 11 o safleoedd Cynradd ac Eilaidd. Nid yw hyn yn cynnwys Safleoedd Wrth Gefn RhYY ar Ynys Môn, sy'n darparu 144.1ha ychwanegol, gan gynnwys Rhosgoch ar 82.2ha[8].

2.16 O ystyried y rhagolwg galw/angen, sy'n seiliedig ar (senario geidwadol) o 6 ha y flwyddyn[9], (h.y. 84 ha dros gyfnod y Cynllun 14 mlynedd), mae'r ATC wedi cynllunio ar gyfer gorgyflenwad o 140.4[10] hectar o dir cyflogaeth (h.y. werth 23.4 blynyddoedd ychwanegol) ar Ynys Môn dros gyfnod y cynllun, cyn i Safleoedd Wrth Gefn RhYY hyd yn oed gael eu hystyried (h.y. mewn safleoedd cynradd ac eilaidd yn unig). Os bydd y Safleoedd Wrth Gefn a amlinellir ym Mholisi Strategol CYF1 CDLl ar y Cyd yn cael eu cymryd i ystyriaeth, mae'r gorgyflenwad yn 284.5ha.

2.17 Fel y cyfryw, mae'n annhebygol iawn y bydd angen y 'safloedd wrth gefn' yn ystod cyfnod y Cynllun (hyd at 2026) hyd yn oed os cymerir 6ha y flwyddyn i fyny. Yn ogystal, heb Rhosgoch, byddai'r safloedd wrth gefn eu hunain yn rhoi cyfrif am 10 mlynedd o'r tir cyflogaeth sydd ei angen (6.19ha yn ôl 6ha y flwyddyn,yn seiliedig ar ffigyrau ym Mholisi Strategol CYF1 CDLl ar y Cyd). Fodd bynnag rydym yn

[6] Paragraff 6.8.1, Adolygiad Tir Cyflogaeth: Astudiaeth i Ynys Môn a Gwynedd (2012)
[7] Paragraff 6.9.4, Adolygiad Tir Cyflogaeth: Astudiaeth i Ynys Môn a Gwynedd (2012)
[8] CDLl ar y Cyd, Polisi Strategol CYF1 Diogelu a dyrannu tir ac unedau i ddefnydd cyflogaeth
[9] Paragraff 6.10.1, Adolygiad Tir Cyflogaeth: Astudiaeth i Ynys Môn a Gwynedd (2012)
[10] Ffigwr 8 (Cyflenwad a ddynodwyd), Adolygiad Tir Cyflogaeth: Astudiaeth i Ynys Môn a Gwynedd (2012)

cefnogi bwriad UPCC i sicrhau bod y Cynllun yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer datblygu mewn cyswllt â RhYY ac felly wedi awgrymu bod y polisi yn cael ei ymestyn i ganiatáu ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn rhai cyflogaeth mewn cysylltiad â RhYY hefyd, o ystyried y gorgyflenwad sylweddol o dir cyflogaeth. Gweler ein sylwadau pellach yn y *Nodyn Dyraniad Tir Cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gorffennaf 2016),* a ddarperir yn Atodiad 1.

2.18 Felly mae Horizon yn ystyried bod y defnydd arfaethedig fel campws llety dros dro (am tua 7-10 mlynedd) mewn cysylltiad â phrosiect ynni o bwys yn ddefnydd priodol o'r tir. Byddai hyn yn dal i olygu y gallai'r safle, ar ôl i'w ddefnydd dros dro ddod i ben, gael ei ddefnyddio at ddibenion cyflogaeth mwy traddodiadol. Ni ddylai polisïau cynllunio greu rhwystr i gyflenwi defnydd o'r safleoedd hynny lle y gellir ei gyfiawnhau'n briodol yn ystod cyfnod y Cynllun, lle y byddai defnydd yn hwyluso cyflwyno prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol.

b) <u>A yw Polisi Strategol PS12 yn darparu hierarchaeth briodol o ganolfannau manwerthu? A fydd y Cynllun yn amddiffyn rolau priodol y canolfannau o fewn hierarchaeth o'r fath?</u>

(Cwestiwn 9. (b) yn Sesiwn Gwrandawiad 5 - Economi: Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth - Agenda Materion)

2.19 Nid yw Horizon yn gwrthwynebu'r dull hierarchaidd a gymerwyd gan y Cynghorau o ran polisi PS12 ond mae o'r farn y dylai'r polisi gael ei egluro er mwyn datgan bod defnyddiau manwerthu/ hamdden ar raddfa fach yn ddefnydd derbyniol fel rhan o'r llety Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd, sydd tu allan i ffiniau aneddiadau. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried eu natur graddfa fach dros dro a lle mae defnydd/ cyfleusterau o'r fath yn ategol i'r TCWA a/neu bwrpasau amwynder gweithwyr/ rheoli gweithlu eraill.

2.20 Ystyria Horizon y gallai geiriad presennol maen prawf 6 polisi PS12 gael ei ddarllen o bosibl i gyfyngu ar y defnydd hamdden a manwerthu graddfa fach y gwyddys sydd eu hangen i gefnogi Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd). Mae darparu cyfleusterau manwerthu a hamdden ar safleoedd Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) yn allweddol i gynaliadwyedd a swyddogaeth llety o'r fath. Er enghraifft, byddai'r safle Rhosgoch yn lletya hyd at 1,500 o weithwyr. Heb siop neu gyfleusterau hamdden ar y safle hwn, byddai pwysau cynyddol yn cael ei roi ar seilwaith a chyfleusterau presennol yn yr ardal leol.

2.21 Felly ystyrir bod polisi PS12 yn methu prawf cadernid 2 ym Mholisi Cynllunio Cymru[11] a phrawf CE4[12] yn y Cynllun.

c) A yw Polisi MAN6: Manwerthu yng Nghefn Gwlad yn briodol ac a yw'n gyson â Pholisi cenedlaethol, gan gynnwys y polisi a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a strategaeth ddatblygu'r Cynllun?

(Cwestiwn 13. yn Sesiwn Gwrandawiad 5 - Economi: Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth - Agenda Materion)

2.22 Mae geiriad presennol polisi MAN6 yn atal darpariaeth manwerthu atodol a hamdden ar rai safleoedd Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd).

2.23 Mae'n hysbys bod angen defnyddiau hamdden a manwerthu ar raddfa fach fel cyfleusterau cyflenwol ar raddfa fach i Weithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd).

2.24 Am y rhesymau a nodir yn (b) uchod, ystyrir bod polisi MAN6: Manwerthu yn y Cefn Gwlad yn methu prawf cadernid 2 ym Mholisi Cynllunio Cymru[13] a phrawf C4[14]

d) A yw'r Cynllun, trwy Bolisi Strategol PS11 a Pholisïau TWR1 a TWR2 yn darparu fframwaith priodol ar gyfer ystyried cynigion am gyfleusterau a llety twristiaeth a hamdden newydd neu well?

(Cwestiwn 16 yn Sesiwn Gwrandawiad 5 - Economi: Cyflogaeth, Manwerthu a Thwristiaeth - Agenda Materion)

2.25 Nid yw polisi drafft TWR1 fel y mae wedi'i eirio ar hyn o bryd yn caniatáu digon o hyblygrwydd, yn benodol mewn perthynas â lleoliad canolfan ymwelwyr Wylfa Newydd. Mae gofyniad lleoliadol clir i'r ganolfan ymwelwyr newydd fod yn agos at safle Wylfa Newydd, y tu allan i'r ffin ddatblygu. Fodd bynnag, byddai lleoliad o'r fath yn groes i bolisi drafft TWR1 os caiff ei fabwysiadu gan nad yw ar hyn o bryd ond yn darparu eithriadau ar gyfer atyniadau ymwelwyr a chyfleusterau tu allan i ffiniau

[11] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
[12] Paragraff 1.17 yn Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

[13] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr, January 2016)
[14] Paragraff 1.17 Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill

lle *"y cyfyngir gweithgaredd i leoliad penodol oherwydd ei ddefnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol."*

2.26 Rhaid penderfynu ar geisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu[15] oni bai bod ystyriaethau perthnasol sy'n nodi fel arall. Fodd bynnag mae Horizon yn bryderus y gallai cynnwys polisïau megis Polisi TWR1 drafft nad yw'n cynnwys digon o hyblygrwydd arwain at sefyllfa lle mae cynigion datblygu yn cael eu hystyried yn groes i'r Cynllun Datblygu, pan nad dyna'r pwrpas a fwriadwyd. Mae'r senario nodi yma yn gwbl rhagweladwy, felly dylai'r Cynllun gynllunio'n benodol ar eu cyfer.

2.27 Mae angen adeiladu hyblygrwydd i mewn i'r senarios hyn. Ymhellach, i'r graddau na all y broses o baratoi'r Cynllun ragweld pob sefyllfa ddatblygu, mae'r un mor hanfodol bod polisïau o'r fath yn cynnwys digon o hyblygrwydd i beidio â rhagfarnu'n erbyn cynigion datblygu.

2.28 Ystyria Horizon nad yw hyn yn gadarn wrth ei asesu yn erbyn prawf cadernid 3 ym Mholisi Cynllunio Cymru[16] a phrawf CE4[17] yn y Cynllun.

2.29 Cytunwyd ar ddiwygiadau i TWR1 gyda'r Cynghorau, gweler paragraff [3.10] isod.

2.30 Ystyria Horizon na ddylai polisi TWR2 fod yn berthnasol i Weithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd). Nid yw'r polisi ei hun yn darparu unrhyw eithriadau penodol i'r mathau hynny o ddatblygiad. Fodd bynnag, mae'r testun ategol ym mharagraff 7.3.55 yn y Cynllun yn datgan *"nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i gynigion i sefydlu safleoedd gwyliau newydd carafanau statig a theithiol, cabanau gwyliau na safleoedd gwersylla moethus amgen."* Cred Horizon y dylai Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) gael eu hychwanegu at y rhestr o ddatblygiad a eithrir ym mharagraff 7.3.55.

2.31 Nid oes gan Horizon unrhyw wrthwynebiad i eiriad polisïau TWR2 na PS11.

---

[15] Adran 70(2) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

[16] Paragraff 2.5.11, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)
[17] Paragraff 1.17 Fersiwn Gyfansawdd o Ddatganiad Ysgrifenedig CDLl ar y Cyd (Ebrill 2016)

3 NEWIDIADAU A GEISIR

3.1 Ystyria Horizon bod angen diwygiadau i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol, a byddai eu habsenoldeb fel arall yn gallu peryglu cyflenwi prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig. Mae angen diwygio nifer o bolisïau er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn ddigon hyblyg ac yn darparu mecanwaith clir ar gyfer gweithredu polisïau mewn perthynas â'r Prosiect.

3.2 Gweler y newidiadau a geisir i bolisïau CYF1, CYF4, TWR1, 7.3.55 TAI3 yn atodiad 2 yr adroddiad hwn.

ATODIAD 1: SYLWADAU AR NODYN DYRANIAD TIR CYFLOGAETH (GORFFENNAF 2016)

Mae *Nodyn Dyraniad Tir Cyflogaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Gorffennaf 2016)* yn arwain at y cyfiawnhad/rhesymau canlynol dros yr orddarpariaeth o dir cyflogaeth a nodir yn yr ATC:

a) Mae'r Cynghorau yn darparu crynodeb o effeithiau cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol amcangyfrifiedig y Prosiect drwy ddefnyddio lluosyddion sector adeiladu i amcangyfrif mai'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol fyddai creu 1,600 o swyddi ychwanegol ar Ynys Môn mewn swyddi B1, B2, B8, manwerthu, lletygarwch a gwasanaethau cyhoeddus yn unig (t.2). Defnyddir hyn fel y sail resymegol ar gyfer cynyddu'r ffigyrau hanesyddol isel ar gyfer manteisio ar dir cyflogaeth (c. 4ha y flwyddyn) i'r 6ha y flwyddyn sydd ei angen dros gyfnod y Cynllun.

b) Mae'r cyflenwad o dir cyflogaeth hefyd yn adlewyrchu'r ansicrwydd o fewn y Prosiect o ran gweithlu a sgiliau. Mae hefyd yn adeiladu i mewn ystyriaeth (amhenodol) y bydd y nifer yn uwch nag a welwyd o'r blaen yn ystod y gwaith adeiladu a chyfnod gweithredol y Prosiect a gweddill RhYY. Cyn RhYY, roedd y Cynllun wedi rhagweld cyfnod o ddirywiad, sy'n ymddangos yn awr fel petai'n cael ei wrthdroi. Ceir tystiolaeth o hyn drwy *"brofi'r farchnad gydag asiantau lleol*" a *"chysylltiadau marchnad uniongyrchol gyda'r Cyngor"* (t.5).

c) Mae'r nodyn yn ystyried bod y Prosiect yn wynebu heriau mewn perthynas â chynnal cludiant cynaliadwy o nwyddau, gwasanaethau a gweithlu i'r Safle, a bydd portffolio hyblyg o safleoedd ar Ynys Môn yn galluogi'r Prosiect i ddarparu cymaint o'i gadwyn gyflenwi ar Ynys Môn ag y bo modd, gan leihau effeithiau posibl ar dagfeydd (t.2).

d) Bydd y cyflenwad o dir cyflogaeth a amlinellir yn ATC yn helpu HNP i gyflawni ei Siarter Cadwyn Gyflenwi, sy'n cynnig lle i fusnesau cadwyn gyflenwi Haen 1 a Haen 2 (t.2) a'i weithlu lleol a mentrau sgiliau.

e) Mae'r dull hwn yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi y *"dylai'r Cynllun nodi gweledigaeth economaidd ar gyfer yr ardal gan gynnwys asesiad eang o newid mewn cyflogaeth a ragwelir fesul sector eang a defnydd tir ac felly ceisio darparu'r swm cywir o dir a chymysgedd ansoddol o safleoedd i gwrdd â'r galw yn y farchnad ar gyfer defnyddiau datblygu*

economaidd" (t.7). Mae hefyd yn unol â TAN 23 sy'n nodi y *"gall targedau fod yn uwch na'r galw a ddisgwylir, i ganiatáu am y cyfle bod yr asesiadau yn rhy isel ac er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfleoedd yn cael eu colli. Dylent hefyd ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd, cystadleuaeth a dewis*" (t.7).

f) Noda Astudiaeth Tir Cyflogaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (2014) sectorau a safleoedd blaenoriaeth i'w cyflawni, gan gynnwys yr Ardaloedd Menter sy'n gysylltiedig â RhYY. Mae'r Astudiaeth yn blaenoriaethu anghenion Wylfa Newydd a'r angen i gadw digon o hyblygrwydd a cwantwm o safleoedd i ddarparu ar gyfer ei ofynion, gan gynnwys Safleoedd Wrth Gefn.

Mae hyn yn ailddatgan bod yr orddarpariaeth o dir cyflogaeth a nodwyd gan ATC yn seiliedig ar ddull hyblyg cyflenwi RhYY ac anghenion Prosiect Wylfa Newydd yn arbennig. Casgliad y Cynghorau yw bod dyrannu'r galw (6ha y flwyddyn) ar 50% yn uwch na'r nifer a fanteisiodd yn hanesyddol yn rhesymol o ystyried y cyfleoedd unigryw cenedlaethol sy'n debygol o gyflwyno eu hunain yn ystod oes y Cynllun. Fel y nodwyd uchod, noda'r ATC bod gorgyflenwad (yn 2012) o 140.4ha o dir cyflogaeth ar Ynys Môn, neu 10ha y flwyddyn hyd at 2026 (LER, Tabl 8.1).

ATODIAD 2: NEWIDIADAU A GEISIR I'R POLISI

Diwygiadau i Bolisi CYF1 i gadarnhau y gall 'Safleoedd Wrth Gefn' gael eu defnyddio ar gyfer Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd)

Ystyria Horizon bod y testun newydd canlynol yn cael ei fewnosod ar ddiwedd Polisi CYF1:

"Caniateir defnyddio safleoedd wrth gefn ar gyfer Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) mewn cysylltiad â'r Rhaglen Ynys Ynni ble gellir dangos y byddai defnydd o'r fath yn dderbyniol, gan ystyried argaeledd tir cyflogaeth a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun gan gynnwys TAI3."

Hefyd ystyria Horizon y dylid diwygio paragraff 7.3.25 i ddarllen fel a ganlyn (newidiadau arfaethedig wedi'u tanlinellu):

"Safleoedd Wrth Gefn – Safleoedd sydd â'r potensial i gwrdd â'r galw (gan gynnwys ar gyfer Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd)/ seilwaith trafnidiaeth) sy'n deillio o Wylfa Newydd yn ogystal â gweddill Rhaglen Ynys Ynni Môn/ Ynys Fenter."

Ystyria Horizon ei fod yn ddefnyddiol egluro'r defnyddiau amgen a all fod yn bosibl i safleoedd wrth gefn a nodir yn CYF1, cyn bod eu hangen i bwrpasau cyflogaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn effeithiol a hyblyg yn nhermau profion cadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Diwygiadau i Bolisi CYF4

Cytunodd Horizon yn amodol gyda'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) i ddywigio maen prawf 6 Polisi CYF4 i ddarllen fel a ganlyn (newidiadau arfaethedig wedi'u tanlinellu):

"…6. Os yw'r safle yn cael ei ddefnyddio yn y tymor byr (dros dro), gan gynnwys Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd), dylid sicrhau bod mesurau adfer priodol yn eu lle i foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol."

Yn ogystal, cynigiodd Horizon bod "neu" yn cael ei ychwanegu ar ôl meini prawf 1 i 5 (cynhwysol).

Mae Horizon wedi hefyd yn ceisio eithriad i Weithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) o bolisïau PS12 (cyfleusterau manwerthu a hamdden) a MAN6 (unedau manwerthu ar raddfa fach). Caiff y rhain eu cynnwys yn natganiad gwrandawiad 2 a byddent yn cael sylw gan y diwygiadau arfaethedig i TAI3.

Diwygiadau i Bolisi TWR1

Mae Horizon wedi cytuno yn amodol â'r UPCC i ddiwygio polisi TWR1 i ddarllen fel a ganlyn (newidiadau arfaethedig wedi'u tanlinellu):

"*3. Gweithgaredd sydd wedi'i gyfyngu i leoliad penodol oherwydd y defnydd priodol o adnodd hanesyddol neu naturiol neu ei agosrwydd at yr atyniad y mae'n berthnasol iddo.*"

Mae hyn yn darparu digon o hyblygrwydd i Horizon gyfiawnhau lleoli canolfan ymwelwyr Wylfa nesaf at safle gorsaf Wylfa Newydd.

Diwygiadau i Baragraff 7.3.55 yn y Cynllun

Mae Horizon wedi cytuno yn amodol â'r UPCC i ychwanegu'r testun canlynol i baragraff 7.3.55, ar ôl y sylw am 'safleoedd gwersylla moethus' (newidiadau arfaethedig wedi'u tanlinellu):

"*…neu Lety Gweithwyr Adeiladu Dros Dro yn dod ymlaen fel rhan o Brosiect Wylfa Newydd.*"

Os nad yw paragraff 7.3.55 yn cael ei ddiwygio fel a nodir uchod, yna cred Horizon y dylai'r paragraff hwn gael ei ddileu. Nid yw'n eglur pam fod safleoedd gwyliau carafanau statig a theithiol newydd, cabannau gwyliau neu safleoedd gwersylla moethus amgen yn haeddu eithriad penodol, ond nid felly TCWA, yn enwedig o ystyried eu pwysigrwydd i gyflawni'r Prosiect Wylfa Newydd ehangach.

Diwygiadau i Bolisi TAI3

Ystyria Horizon bod diwygiadau i bolisi TAI3 yn ofynnol i egluro nad oes disgwyl i Weithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd) gwrdd â pholisïau a fyddai fel arfer yn berthnasol i dai parhaol, gan gynnwys polisïau PS12, PS15, ISA2, ISA5, TAI5, TAI8, TAI9, TAI14, TAI15, TAI16 a TAI17. Ceir y geiriad a gynigir ar gyfer y fersiwn ddiwygiedig o bolisi TAI3 yn natganiad gwrandawiad Horizon ar gyfer Sesiwn 2 - Darpariaeth Tai.

Mae'r egwyddor o ddiwygio polisi TAI3 polisi i adnabod pa elfennau sy'n berthnasol i bob categori o TCWA wedi cael ei gytuno gyda'r UPCC. Bydd hyn yn ymgorffori fframwaith clir yn y Cynllun Datblygu o ba bolisïau ddylai gael eu cymhwyso i gynigion ar gyfer Gweithwyr Dros Dro (Cyfleusterau Modiwlaidd), gan osgoi nifer o wyriadau oddi wrth y Cynllun Datblygu a fyddai'n bygwth darpariaeth amserol Prosiect Wylfa Newydd.